LANCS10

# Rheoli'r ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn y sector tir

## Trosolwg

Bwriedir y safon hon i'r rhai sy'n gweithio ar lefel oruchwylio neu reoli yn y sector tir ac y mae angen iddynt baratoi ar gyfer, a rheoli, yr ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau ac argyfyngau. Mewn sefydliad mawr, gall fod ganddynt rolau penodol fel Rheolwr/Swyddog Ymateb i Ddigwyddiadau, Cynghorydd Rheoli Digwyddiadau neu Arweinydd Tîm Ymateb i Ddigwyddiadau. Mewn sefydliad llai, rheolwr neu oruchwyliwr dynodedig fydd yn gyfrifol am hyn hyd nes bydd y gwasanaethau brys neu sefydliad cyfrifol arall yn cyrraedd, a fydd wedyn yn cymryd rheolaeth.

Gallai digwyddiadau ac argyfyngau gynnwys tân, llifogydd, gollyngiadau, halogiad neu ddigwyddiadau amgylcheddol eraill (ar dir neu ar ddŵr), lleoliadau troseddau, damweiniau ac argyfyngau meddygol, ynghyd â digwyddiadau iechyd a diogelwch, a diogeledd.

Mae'n bwysig bod gweithdrefnau ar waith i ddelio â digwyddiadau neu argyfwng o unrhyw faint, a bod y rhain yn cael eu cyfleu i'r bobl sydd angen eu gwybod. Dylent gynnwys beth i'w wneud i ddechrau, er enghraifft sut i ddefnyddio cyfarpar argyfwng priodol, sut i gysylltu â'r gwasanaethau brys a ffynonellau cymorth perthnasol eraill, sut i uwchgyfeirio digwyddiad i lefel reoli uwch a sut i gofnodi a gwneud adroddiadau am fanylion digwyddiadau ac argyfyngau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau bod gweithdrefnau ar waith i ddelio â mân ddigwyddiadau ac argyfyngau, a chamau cynnar digwyddiadau mwy cymhleth, yn eich man gwaith
2. gwirio bod gweithdrefnau a chyfarwyddiadau’n cael eu cyfleu i bawb sydd angen gwybod
3. os bydd digwyddiad neu argyfwng, asesu’r sefyllfa i nodi’r peryglon a’r risgiau a gyflwynir a beth yw’r gweithdrefnau ymateb priodol
4. ceisio a chadarnhau gwybodaeth am y digwyddiad neu’r argyfwng i lywio’r camau gweithredu sydd eu hangen
5. cymryd cyfrifoldeb a dechrau rheoli’r ymateb cychwynnol i’r digwyddiad neu’r argyfwng
6. lle bo’r angen, galw am gymorth y gwasanaethau brys priodol, sefydliadau cyfrifol, neu ffynonellau cymorth perthnasol eraill, gan roi manylion llawn am y digwyddiad neu’r argyfwng
7. gweithio gyda’r gwasanaethau brys ac ymatebwyr eraill, lle bo gofyn, gan ddarparu gwybodaeth a derbyn cyfarwyddiadau
8. pan fydd digwyddiad yn gwaethygu, bod yn barod i friffio awdurdodau uwch a throsglwyddo rheolaeth yn effeithiol
9. darparu’r wybodaeth berthnasol i bawb sy’n gysylltiedig â’r digwyddiad neu’r argyfwng, neu y mae’r digwyddiad neu’r argyfwng wedi effeithio arnynt, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am risgiau posibl
10. darparu cymorth a chyfarwyddyd i’r rhai sy’n ymwneud â’r digwyddiad neu’r argyfwng
11. gwirio bod uniondeb y dystiolaeth yn cael ei ddiogelu os gallai fod ei hangen ar y gwasanaethau brys neu bartïon eraill e.e. cwmni yswiriant
12. cynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill wrth reoli’r ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau neu argyfyngau
13. rheoli gweithredu cynlluniau wrth gefn yn unol â gweithdrefnau’r sefydliad
14. casglu gwybodaeth am y digwyddiad neu’r argyfwng a allai helpu i sefydlu’r achos a’i atal rhag digwydd eto
15. gwirio bod y weithdrefn ar gyfer cofnodi a gwneud adroddiadau am ddigwyddiadau ac argyfyngau yn cael ei dilyn, a bod y ddogfennaeth ofynnol yn cael ei chwblhau, yn unol â gofynion a graddfeydd amser cyfreithiol perthnasol a’ch sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y mathau o ddigwyddiadau neu argyfyngau a allai ddigwydd yn eich man gwaith
2. egwyddorion rheoli digwyddiadau a phwysigrwydd bod â gweithdrefnau ar waith i reoli digwyddiadau ac argyfyngau e.e. system rheoli digwyddiadau
3. y gweithdrefnau a’r cyfarwyddiadau penodol ar gyfer delio â digwyddiadau ac argyfyngau yn eich man gwaith, gan gynnwys gweithdrefnau gwacau, cynlluniau wrth gefn a phryd a sut i gysylltu â gwasanaethau brys, sefydliadau cyfrifol neu ffynonellau cymorth perthnasol eraill
4. pwysigrwydd cyfleu gweithdrefnau a chyfarwyddiadau i bawb sydd angen gwybod, a sut y dylid gwneud hyn
5. pwysigrwydd ymateb yn gyflym i ddigwyddiad neu argyfwng, gan nodi’r peryglon a’r risgiau a’r gweithdrefnau ymateb priodol
6. pwysigrwydd ceisio a chadarnhau gwybodaeth am y digwyddiad neu’r argyfwng i lywio’r camau gweithredu sydd eu hangen
7. y camau gweithredu sydd eu hangen i gymryd cyfrifoldeb am reoli’r ymateb cychwynnol i’r digwyddiad neu’r argyfwng
8. pwysigrwydd cysylltu â’r gwasanaethau brys, sefydliadau cyfrifol perthnasol neu ffynonellau cymorth eraill a’r wybodaeth i’w rhoi iddynt
9. y broses ar gyfer uwchgyfeirio digwyddiad cynyddol neu gymhleth a throsglwyddo gofal yn effeithiol
10. pwysigrwydd rhoi gwybod i’r bobl sy’n gysylltiedig â’r digwyddiad neu’r argyfwng, neu y mae’r digwyddiad neu’r argyfwng wedi effeithio arnynt, am y sefyllfa ac unrhyw risgiau posibl
11. pwysigrwydd diogelu uniondeb tystiolaeth
12. yr arferion diogel y dylid eu defnyddio wrth ddelio â digwyddiadau ac argyfyngau
13. pwysigrwydd ymchwilio i achos digwyddiadau ac argyfyngau
14. y gweithdrefnau cyfreithiol a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cofnodi a gwneud adroddiadau am ddigwyddiadau ac argyfyngau, a’r gofynion ar gyfer cwblhau dogfennaeth

## Geirfa

**Argyfwng:** Digwyddiad neu sefyllfa frys, annisgwyl a pheryglus fel arfer sy’n peri risg uniongyrchol i iechyd, bywyd, eiddo neu’r amgylchedd ac y mae angen gweithredu ar unwaith yn ei gylch. Digwyddiad neu sefyllfa sy’n bygwth difrod difrifol i les pobl mewn man yn y Deyrnas Unedig (DU), i amgylchedd man yn y DU, neu i ddiogelwch y DU neu fan yn y DU.

**Digwyddiad**: Digwyddiad neu sefyllfa anfwriadol sy’n tarfu ar weithrediadau arferol ac sydd angen ymateb gan y gwasanaethau brys neu ymatebwyr eraill. Gellir diffinio bod digwyddiad yn un mân, cymedrol neu fawr, gydag amrywiaeth o effeithiau ar y sefydliad, y sector, yr amgylchedd a phobl.

**System Rheoli Digwyddiad:** Dull systematig cymeradwy ar gyfer rheoli digwyddiad

**Sefydliadau cyfrifol perthnasol neu ffynonellau cymorth eraill**: e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd, SEPA, Defra, DAERA, Cyfoeth Naturiol Cymru, swyddog cymorth cyntaf, rheolwr, person iechyd a diogelwch, milfeddyg

## Cysylltiadau â SGC eraill

LANCS11 Ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn y sector tir
LANCS104 Cynllunio a rheoli’r ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn y sector tir

LANCS10

# Rheoli’r ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn y sector tir

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS10 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Peiriannydd, Gofal anifeiliaid, Rheolwr Ceffylau, Ffensio, Cadwraeth Amgylcheddol, Garddwriaeth, Amaeth |
| **Cyfres/Set** | Ffensio, Ceffylau, Garddwriaeth, Cadwraeth Amgylcheddol, Gweithrediadau Peirianneg ar y Tir, Gofal Anifeiliaid, Crofftio a Chadw Tyddyn, Rheoli Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | digwyddiadau; damweiniau; argyfyngau |